Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Teilo's Tots**

**62 Cilgant Cheriton**
**Portmead**
**Abertawe**
**SA5 5LA**

Adroc ieb ei



**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

02/07/2019

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Meithrinfa Ddydd Teilo's Tots ym mis Mai 2018. Mae'n darparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 33 o blant hyd at 12 oed. Mae'r feithrinfa wedi'i lleoli ym Mhorthmead, Abertawe ac yn gweithredu rhwng 7:30 a 19:30, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cherrie Bija yw'r unigolyn cyfrifol a Lisa Leanne Evans yw'r person â chyfrifoldeb. Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir yn y feithrinfa.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arwain a Rheoli | Da |

## 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu Teilo's Tots yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau treulio amser yn y feithrinfa. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant ac yn ymateb i'w hanghenion yn dda, gan ryngweithio â'i gilydd a'r plant mewn ffordd fagwrus a gofalgar. Mae'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel, gan ddarparu gwasanaeth diogel ac iach i'r plant. Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn drefnus, ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gwelliannau

Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf. Roedd yr arweinwyr wedi rhoi gwybod i ni eu bod wedi cymryd camau rhagweithiol yn brydlon er mwyn rhoi'r argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r arolygiad diwethaf ar waith.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â Gofal a Datblygu, a'r Amgylchedd. Mae'r rhain wedi'u nodi ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## 1. Llesiant

**Da**

### Crynodeb

Mae gan y plant lais hyderus yn y gwasanaeth hwn. Maent wedi setlo'n dda, maent yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae a'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag eraill ac yn meithrin cyfeillgarwch â'i gilydd. Maent yn gwneud cynnydd priodol wrth iddynt gymryd rhan mewn ystod amrywiol o gyfleoedd chwarae a dysgu.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt. Yn ystod amseroedd cysgu, roedd y plant yn dewis pa aelod o'r staff roeddent am helpu i'w setlo. Roedd y plant yn dewis rhwng diod o ddŵr a llaeth yn ystod amser cinio, a gofynnodd rhai ohonynt am gael rhagor o iogwrt, cais a gafodd ei barchu gan y staff. Dewisodd y plant hynny a oedd wedi gorffen eu cinio i chwarae'n rhydd yn yr ardaloedd chwarae. Mae'r staff yn gweithredu ar safbwyntiau a diddordebau'r plant. Er enghraifft, gwrandawodd y staff ar y plant hynny a benderfynodd nad oeddent am chwarae yn yr awyr agored, ac aethant i mewn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd teimladau, hoff a chas bethau ac anghenion y plant yn cael eu cydnabod am fod ganddynt gydberthynas agos â'r staff. Roedd bron pob un o'r plant wedi setlo ac roedd ganddynt gydberthynas agos â'u gweithwyr allweddol, wrth iddynt fynd at y staff i gael maldod a sicrwydd pan oeddent wedi blino. Roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chawsant ganmoliaeth gan y staff. Er enghraifft, roedd y plant hynny a oedd wedi bwyta eu cinio i gyd yn gwenu wrth iddynt gael eu canmol gan y staff. Roedd y plant yn rhyngweithio'n hapus â'r staff, gan sgwrsio yn ystod amser cinio ac wrth iddynt chwarae â theganau cerdd.

Roedd gan y plant ymdeimlad o berthyn wrth iddynt feithrin cyfeillgarwch ac roeddent yn gyfarwydd â'r drefn feunyddiol. Er enghraifft, roedd y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn hapus wrth iddynt ddynwared ei gilydd gan godi eu hunain i sefyll ac yn chwerthin am ben ei gilydd wrth wneud hynny. Penderfynodd y plant wthio'i gilydd ar gerbyd reidio, ac o ganlyniad, roedd pob plentyn a oedd yn cymryd rhan yn chwerthin ac yn llawn cyffro.

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn dilyn rheolau sy'n effeithio ar eraill. Roedd y plant yn gwrando pan rybuddiodd y staff iddynt fod yn ofalus wrth chwarae â'r drychau rhag ofn y byddent yn torri. Yn ogystal, roedd y plant yn gwrando ar anogaeth i gymryd eu tro wrth iddynt chwarae ar y trên gwthio. Roedd y plant yn cael eu cefnogi a'u hannog yn weithredol i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da iawn o gyflawni rhywbeth. Ar ôl cael eu hannog gan y staff, roedd y plant yn defnyddio llwyau i fwyta eu pwdin yn annibynnol am y tro cyntaf, ac roedd y staff a'r plant yn dathlu drwy guro dwylo a gwenu ar ei gilydd.

Roedd y plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad Roeddent yn gwenu wrth iddynt ddewis chwarae â'r treiciau, offerynnau cerdd, gwneud marciau â chreonau ar y llawr, y gegin, a sblashio eu dwylo yn y pyllau padlo â dŵr a deunyddiau synhwyraidd. Roedd y plant iau yn mwynhau gwrando ar hwiangerddi ac yn rhyngweithio drwy guro eu dwylo gyda'r gerddoriaeth.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus er mwyn datblygu creadigrwydd, arbrofi a dychmygu. Er enghraifft, roedd y plant yn dewis chwarae â bwyd plastig yn y caffi chwarae rôl, a thorri'r ffrwythau a'r llysiau er mwyn i'r staff eu bwyta. Roedd y plant iau yn codi eu hunain i sefyll gan ddefnyddio byrddau a chadeiriau lefel isel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad

**Da**

### Crynodeb

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn effeithiol am eu bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae'r staff yn fodelau rôl da gan ymddwyn a rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Mae'r staff yn gwneud cynnydd parhaus i ddiwallu anghenion unigol y plant. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant yn gyson ac yn gwerthfawrogi eu hanghenion a'u dewisiadau.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac arloesol. Roedd y staff yn sicrhau bod gweithdrefnau newid cewynnau'n cael eu dilyn wrth iddynt wisgo dillad amddiffynnol a glanhau'r ardal newid cewynnau cyn ac ar ôl newid pob cewyn. Roedd y staff yn rhoi arferion glanhau a hylendid da ar waith am eu bod yn cadw rota dyddiol cyfredol o'r tasgau glanhau. Roedd y staff a'r plant yn golchi eu dwylo â sebon ar ôl mynd i'r toiled. Roeddent yn defnyddio tywelion papur ar wahân ac yn golchi eu dwylo ar ôl sychu trwynau'r plant gan ddileu achosion o groes-heintio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rhoddwyd blaenoriaeth i ddiogelu ac mae bron pob aelod o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn drwyadl yn dda iawn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r ddyletswydd atal ond nid oeddent wedi cael hyfforddiant a nodwyd fel cam gweithredu cyn yr arolygiad. Soniodd y staff yn hyderus wrthym am y gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn yn sgil unrhyw bryderon o ran diogelu.

Roedd bron pob aelod o'r staff wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd. Roedd y staff yn darparu gorsafoedd dŵr dan do ac yn yr awyr agored, ond ni welsom yr un plentyn yn eu defnyddio yn ystod yr arolygiad. Daethpwyd â digon o ddŵr i'r plant gan eu cadw wedi'u hydradu yn ystod diwrnod twym a rhoddwyd eli haul arnynt. Paratowyd pryd poeth a oedd yn cynnwys selsig, tatws a llysiau ar gyfer y plant, a darparodd y staff yr holl gwpanau, llwyau a ffyrc perthnasol ar gyfer y plant, ond nid oedd y staff wedi glanhau'r byrddau cyn cinio. Sychodd y staff wynebau'r plant â chlytiau ar wahân ar ôl cinio. Roeddent yn deall canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, ac yn mynd ati i'w rhoi ar waith. Ers i'r arweinwyr gael eu hyfforddiant, maent wedi rhoi'r canllawiau hynny ar waith wrth lunio bwydlenni newydd y feithrinfa.

Mae'r staff yn ymatebol yn gyson, maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn sensitif tuag at anghenion plant unigol. Roedd y staff yn darparu blancedi a chardiganau cynnes ar gyfer unrhyw blentyn a oedd yn teimlo'n oer yn y gwynt yn yr awyr agored. Roedd y staff yn canmol y plant am wrando'n dda pan ofynnwyd iddynt fod yn ofalus o'r plant iau wrth iddynt chwarae ar y treiciau. Roedd y staff yn tynnu sylw'r plant a

oedd wedi'u cynhyrfu drwy roi teganau iddynt chwarae â nhw a'u cefnogi drwy roi maldod cynnes a chysurlon iddynt.

Mae'r staff yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant wrth iddynt olrhain eu cynnydd ar ap a oedd yn darparu camau nesaf o ran dysgu'r plant. Roedd y gweithwyr allweddol yn cynllunio ar gyfer camau nesaf y plant ac yn adolygu eu cynnydd bob dydd. Roedd y staff yn annog y plant yn gyson, gan chwarae gyda nhw'n unigol a rhyngweithio â nhw mewn modd cadarnhaol a gofalgar, wrth i ni weld y plant iau ar y ceir reidio yn gwthio eu hunain yn annibynnol â'u traed. Roedd y staff yn canmol y plant gan ddweud "*Wow well done, you're so clever!"* . Mae'r staff yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu i'r plant. Er enghraifft, roedd y staff yn mynd ati i annog a chefnogi galluoedd y plant i wneud marciau ac yn darparu creonau i'r plant wneud lluniau ar y darn mawr o bapur ar y llawr. Yn ogystal, roedd y staff yn annog datblygiad iaith yn yr ardal chwarae rôl wrth i'r plant ddod â phaneidiau o de, ffrwythau a gwahanol fwydydd i'r staff yn llawn brwdfrydedd. Roedd y plant yn chwarae â phypedau amlddiwylliannol ac yn edrych ar lyfrau, gan gynnwys y rhai o wahanol ddiwylliannau. Canodd y staff gasgliad o hwiangerddi Saesneg, ac un yn Gymraeg. Caiff themâu eu newid yn rheolaidd, ac mae'r staff yn cynllunio themâu a gweithgareddau sy'n dilyn diddordebau plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd — Da

### Crynodeb

Mae'r safle a gafodd ei hailwampio'n ddiweddar wedi'i addurno'n braf ac mae'n lân. Mae digon o le i'r plant chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr yn darparu teganau ac adnoddau o ansawdd da ac sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau clir ac asesiadau risg cadarn ar waith i ddiogelu'r plant yn eu gofal.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn ddiogel. Er enghraifft, caiff y drws allanol ei gadw dan glo
ac mae'n rhaid i ymwelwyr â'r feithrinfa ganu'r gloch fel y gall y staff a'r arweinwyr eu gadael i mewn. Roedd yr ardal awyr agored wedi'u hamgáu'n ddiogel er mwyn sicrhau na allai neb heb awdurdod ddod i mewn. Roedd y safonau hylendid a glendid yn dda. Roedd y safle mewn cyflwr da, roedd gwiriadau cynnal a chadw 'n cael eu diweddaru a chafwyd tystysgrif gwasanaethu'r boeler yn ystod y broses arolygu. Roedd asesiadau risg cadarn a oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar gyfer y tu allan a'r tu mewn i'r feithrinfa, gan sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau o ansawdd da i'r plant o bob oedran a cham datblygu. Roedd cadeiriau a byrddau o faint addas i'r plant ar gael i'r plant i gyd, ynghyd â chadeiriau uchel os oedd angen. Roedd yr arweinwyr wedi gosod drysau diogel a oedd yn gwahanu pob ardal chware ac nid oedd gan y plant fynediad i'r ceginau. Roedd yr holl sylweddau glanhau cemegol wedi'u cadw i ffwrdd oddi wrth y plant. Roedd toiledau a basnau ymolchi lefel isel o faint addas i'r plant, a oedd yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael eu parchu. Mae thermomedrau ym mhob ystafell er mwyn sicrhau bod pob ardal ar y tymheredd cywir. Roedd yr ardal gorffwys a chysgu ar wahân i'r ardal chwarae, ac roedd cotiau, matiau cludadwy a blancedi ar wahân ar gael at ddibenion cysur.

Roedd yr ardal ddysgu'n olau ac yn lliwgar ac roedd rhywfaint o dystiolaeth o arddangosfeydd. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o waith y plant yn cael ei ddathlu ar y waliau, ac roedd fawr ddim tystiolaeth o eirfa Gymraeg a Saesneg. Roedd yr arweinwyr yn darparu digon o lyfrau darllen, teganau meddal, ardal chwarae rôl, offerynnau cerdd a theganau chwarae byd bach ar gyfer y plant, yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd darparu adnoddau'n barhaus yn yr ardaloedd yn hyrwyddo dysgu annibynnol y plant drwy feysydd dysgu penodol gan gynnwys adnoddau sy'n gwella chwarae rôl, anifeiliaid fferm chwarae byd bach, sgiliau creadigol a chorfforol, adeiladu, datblygiad iaith a mathemategol, yn ogystal â datblygiad cymdeithasol yn y meysydd. Roedd y cyfleoedd hyn yn cynnwys doliau a phypedau amlddiwylliannol a oedd hefyd yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Roedd yr arweinwyr yn darparu ardal laswelltog eang yn yr awyr agored ac

ardal feddal sych wedi'i orchuddio. Roedd yr arweinwyr a'r staff yn sicrhau bod cyfleoedd chwarae dŵr, chwarae blêr, chwarae rôl, chwarae synhwyraidd a chwarae corfforol ar gael yn yr ardal awyr agored.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn drefnus ac yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ethos gwaith cadarnhaol yn y gwasanaeth ac mae'r staff yn cael budd o dîm rheoli cefnogol. Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau da â'r rhieni sy'n hapus iawn â'r gwasanaeth a'r gofal a ddarperir ar gyfer eu plant. Mae'r broses hunanwerthuso yn ddatblygiadol yn seiliedig ar anghenion y plant a'r rhieni. Mae'r polisïau'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y staff i ofalu am y plant yn effeithiol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rheolaidd, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â'r holl staff fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Roedd gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben manwl, yr oeddent wedi'i ddiweddaru yn ystod yr arolygiad i gynnwys y trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion brys, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd yr arweinwyr wedi cadw cofnodion manwl o ddigwyddiadau a damweiniau, yr oedd y rhieni wedi'u llofnodi a'u dyddio. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan arweinwyr y gwasanaeth hwn, gan ddweud "*I really enjoy coming to work here, we all get along well.*" Roedd digon o staff ar ddyletswydd bob amser, ac roedd aelod ychwanegol o'r staff a oedd yn gyfrifol am ddyletswyddau swyddfa a choginio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd arweinwyr y gwasanaeth hwn yn ymarferwyr gofal plant profiadol a chymwysedig iawn. Roedd ganddynt broses recriwtio gadarn ar waith, ac roedd y wybodaeth yn ffeiliau'r staff yn
cydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd yr arweinwyr yn cadarnhau'r cofrestrau presenoldeb, ac roedd amseroedd cyrraedd a gadael y staff yn cael eu cofnodi gan amlaf.

Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn bwriadu adolygu ansawdd eu gwasanaeth yn y dyfodol agos ac roeddent am anfon holiaduron at y rhieni a'r staff a chasglu barn plant er mwyn creu adroddiad ar ansawdd y gofal.

Roedd gan y staff bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a gwnaethom eu clywed yn rhoi adborth i'r rhieni wrth iddynt gasglu eu plant. Roeddent yn darparu ap o'r cartref i'r feithrinfa a oedd yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau'r plant, y bwyd yr oeddent wedi'i fwyta a'u hanghenion o ran defnyddio'r toiled. Roedd adborth y rhieni'n gadarnhaol a dywedodd un rhiant wrthym fod y feithrinfa'n ardderchog, yn ei barn hi. Roedd sylwadau'r rhieni'n cynnwys "*it has superseded my expectations as a nursery. They excel in childcare and development. My children are not only cared for they are loved here. Leaders are superb at supporting families and coordinates the centre 10/10!"* Mae'r arweinwyr yn darparu sesiynau ymgartrefu rheolaidd ar gyfer y plant newydd, a rhoddir datganiad o ddiben a chyflwyniad i'r polisïau i'r rhieni. Mae'r staff yn rhannu lluniau,

gweithgareddau a chyflawniadau'r plant drwy'r ap a gaiff ei ddiweddaru'n ddyddiol, ac mae gwybodaeth a digwyddiadau arbennig yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gan yr arweinwyr gysylltiadau da â'r ysgol, y ganolfan gymunedol, meddygon ac ymwelwyr iechyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dyma oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r cartref gofrestru.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell bod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol;

- sicrhau bod y staff yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn ystod prydau bwyd;
- annog y defnydd o rywfaint o Gymraeg achlysurol;
- sicrhau bod y staff yn glanhau'r byrddau cyn prydau bwyd;
- dangos tystiolaeth o waith a chyflawniadau'r plant ar y waliau;
- sicrhau bod y staff yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth;
- sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r ddyletswydd atal ac yn cwblhau hyfforddiant ar-lein.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd, a drefnwyd ymlaen llaw ar ôl cofrestru, oedd hwn. Cynhaliwyd yr arolygiad gan un arolygydd ddydd Mawrth, 2 Mehefin 2019 am gyfnod o tua 5 awr a 30 munud. Yn ystod ein hymweliad;

- gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion;
- gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau;
- gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg a'r tystysgrifau yswiriant;
- cawsom holiaduron gan ddau riant a chwe aelod o'r staff;
- gwnaethom siarad â'r plant a'r rhieni yn y gwasanaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Cherrie Bija |
| Person â chyfrifoldeb | Lisa Leanne Evans |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 33 |
| Ystod oedran y plant | Oed geni hyd at 12 oed |
| Oriau agor | Rhwng 8:00 a 19:30, o ddydd Llun i ddydd Gwener. |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 02 Gorffennaf 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn gofal cymdeithasol. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/08/2019